# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

## 10 Camau gorfodi gan awdurdodau lleol

(1) Caiff awdurdod lleol—

(a) dwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau yn ei ardal o dan y Ddeddf hon;

(b) ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal o dan y Ddeddf hon;

(c) cymryd unrhyw gamau eraill gyda golwg ar leihau nifer y troseddau sy'n digwydd yn ei ardal o dan y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) ystyried, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis, y graddau y mae'n briodol i'r awdurdod gynnal yn ei ardal raglen o gamau gorfodi mewn perthynas â'r Ddeddf hon, a

(b) i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnal rhaglen o'r fath.

(3) Wrth gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i awdurdod yn benodol roi sylw i'r amcanion a ganlyn—

(a) gwella iechyd y cyhoedd;

(b) amddiffyn plant rhag niwed.

(4) At ddibenion is-adran (2), mae rhaglen o gamau gweithredu mewn perthynas â'r Ddeddf hon yn rhaglen sy'n ymwneud â chymryd pob un neu unrhyw un neu ragor o'r camau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 10.